## P-05-1057 Cynyddu nifer y bobl sy’n cael mynd i dderbyniadau priodas

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Simon Clark, ar ôl casglu cyfanswm o 984 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Mae gennym briodas wedi'i chynllunio ar gyfer diwedd mis Hydref, ond ar hyn o bryd ni allwn gael derbyniad i ddilyn gyda'n gwesteion i gyd. Gallem gael pryd o fwyd mewn bwyty ond nid ‘derbyniad’.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Ar hyn o bryd mae Gogledd Iwerddon yn caniatáu i leoliadau gyfyngu ar y niferoedd ar sail maint y lleoliad a chadw pellter cymdeithasol diogel. Hoffem weld hyn yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng y diwydiant bwytai / tafarndai a'r diwydiant priodasau. Mae'r rheoliadau presennol a diffyg amserlen wrth symud ymlaen wedi gadael cannoedd o gyplau mewn cyflwr o ansicrwydd a dan bwysau sylweddol yn ystod cyfnod a ddylai fod yr hapusaf yn eu bywydau.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru